OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Halton i Gyffordd Whitehurst, Y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Dileu Cyfyngiadau) 202-

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** 2025* |
| *Yn dod i rym* | ***** 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Halton i Gyffordd Whitehurst, Y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Dileu Cyfyngiadau) 202- a daw i rym ar **** 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A5 Trunk Road (Halton Roundabout to Whitehurst Junction, Chirk, Wrexham County Borough) (Derestriction) Order 202-

| | |
|---|---|
| *Made* | ***** 2025* |
| *Coming into force* | ***** 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2), 83(1) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

### Title and Commencement

**1.** The title of this Order is the A5 Trunk Road (Halton Roundabout to Whitehurst Junction, Chirk, Wrexham County Borough) (Derestriction) Order 202- and it comes into force on **** 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"the trunk road" means the A5 London to Holyhead trunk road.

(**1**) 1984 c. 27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Dileu Cyfyngiadau**

**3.** Bydd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.

**Dirymu**

**4.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A5) (Ffordd Osgoi’r Waun, Halton, Clwyd) (Dileu Cyfyngiadau) 1992(**1**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig **** 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 87 o fetrau i’r de o ymyl ogleddol yr ynys hollti wrth Gylchfan Halton hyd at bwynt 104 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r B5605, y Waun.

Y darn o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Halton, y Waun.

Y darn o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Whitehurst, y Waun.

(**1**) O.S. 1992/147.

**Derestriction**

**3.** The lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

**Revocation**

**4.** The Trunk Road (A5) (Chirk By-Pass, Halton, Clwyd) (De-Restriction) Order 1992(**1**) is revoked.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated **** 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of the trunk road that extends from a point 87 metres south of the northern edge of the splitter island at Halton Roundabout to a point 104 metres north-west of the centre-point of its junction with the B5605, Chirk.

The length of the circulatory carriageway of Halton Roundabout, Chirk.

The length of the circulatory carriageway of Whitehurst Roundabout, Chirk.

(**1**) S.I. 1992/147.